Mae Cymorth i Ferched Cymru yn sefydliad cenedlaethol yng Nghymru sy'n cefnogi gwasanaethau arbenigol y trydydd sector sy'n gweithio i roi terfyn ar gam-drin domestig, trais rhywiol, a mathau eraill o drais yn erbyn menywod.

Llywiwr Strategol Model Dilyniant

- **£35,411 - £38,296 (Graddfa gyflog PO2)**
- **37.5 awr yr wythnos**
- **Contract Cyfnod Penodol tan 30 Mehefin 2028**
- **Wedi'i lleoli yng Nghaerdydd, gyda theithio ledled Cymru fel** sydd angen. **Opsiynau gweithio hybrid ar gael**

Dyddiad cau: Dydd Mawrth 3 Tachwedd 2026

Cyfweliadau: Dydd Llun 9 a Dydd Mawrth 10 Tachwedd 2026

Bydd y cyfweliad yn cael ei gynnal trwy Microsoft Teams

Mae'r swydd hon yn agored i ferched yn unig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn unol ag Atodlen 9, Rhan 1. Rydym ni'n gwerthfawrogi amrywiaeth ac rydym ni wedi ymrwymo i sicrhau bod ein sefydliad yn lle cynhwysol i weithio.

Swydd ddisgrifiad cryno

Bydd y swydd reoli hon o fewn y tîm Aelodaeth, Gwasanaethau ac Ymgysylltu yn darparu arweinyddiaeth strategol a chydlynu rhwng gwasanaethau VAWDASV arbenigol a phartneriaid statudol allweddol ledled Cymru, gan sicrhau llwybrau cymorth diogel ac effeithiol i oroeswyr sy'n cael eu heffeithio gan y rhaglen rhyddhau carcharorion yn gynnar.

Bydd deiliad y swydd yn arwain gwaith partneriaeth genedlaethol sy'n gysylltiedig â'r Model Dilyniant, gan ddatblygu adnoddau a chanllawiau arbenigol, a hyrwyddo hyfforddiant i gryfhau arferion cyson, sy'n seiliedig ar drawma ar draws y sector VAWDASV a thu hwnt.

Bydd hyfforddiant llawn yn cael ei ddarparu.

Gweler y pecyn recriwtio am wybodaeth fanylach.

Manyleb person

Sgiliau hanfodol:

- Cymhwyster neu radd rheoli, neu'r gallu i ddangos tystiolaeth o ddysgu cyfatebol o brofiad gwaith perthnasol.
- Gweithio mewn rôl rheoli gwasanaeth / rheoli prosiect neu gyfwerth.
- Datblygu a rheoli perthnasoedd gwaith effeithiol gydag ystod o randdeiliaid mewnol ac allanol.
- Datblygu cynlluniau gwaith strategol a gweithredol, ysgrifennu cynlluniau prosiect, adroddiadau cynnydd, gwerthusiadau a briffiau.
- Profiad o gasglu tystiolaeth yn ogystal â datblygu a gwella gwasanaethau.
- Dealltwriaeth gynhwysfawr o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol o fewn fframwaith cydraddoldeb, hawliau dynol a diogelu.
- Dealltwriaeth o brofiadau, anghenion ac effeithiau cam-drin domestig a rhywiol ar oroeswyr, menywod a phlant sydd wedi dioddef gwahanol fathau o gamdriniaeth.
- Modelau darparu gwasanaethau, polisi a deddfwriaeth sy'n ymwneud â cham-drin domestig, trais rhywiol a chyfiawnder troseddol.
- Dealltwriaeth o'r cyd-destun gwleidyddol, y seilwaith a'r prosesau comisiynu cyfredol yng Nghymru gan gynnwys systemau cyfreithiol, amddiffyn plant ac ati.
- Dealltwriaeth gref o arferion rheoli prosiectau, ac o osod mesurau a dangosyddion effaith.
- Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig rhagorol ac i gyflwyno negeseuon cymhleth i ystod eang o gynulleidfaoedd.
- Sgiliau rheoli amser rhagorol, y gallu i weithio o dan bwysau ac i fodloni dyddiadau cau tynn.
- Sgiliau TG profedig gan gynnwys defnyddio Microsoft Teams, Outlook, Word ac Excel.
- Tystiolaeth o ymrwymiad i werthoedd, gweledigaeth a chenhadaeth Cymorth i Ferched Cymru.
- Lefelau uchel o uniondeb proffesiynol a ffiniau clir.
- Rhagweithiol, hyblyg ac yn canolbwyntio ar atebion gydag ymagwedd gadarnhaol.

Sgiliau dymunol:

- Profiad o weithio o fewn sefydliad aelodaeth.
- Profiad o weithio ar gydraddoldeb, hawliau dynol a/neu drais yn erbyn menywod neu blant.
- Gwybodaeth am gymhwysiad ymarferol mesurau a dangosyddion effaith
- Cymhwyster rheoli prosiect
- Dwyieithog yn Gymraeg a Saesneg, yn llafar ac yn ysgrifenedig.

Cyfrifoldebau cyffredinol:

- Cyfathrebu rhyng-dîm cyson a chywir ynghylch prosiectau a thasgau allweddol i leihau dyblygu a chynyddu cydweithio.
- Sicrhau bod Cymorth i Ferched Cymru yn gweithio o fewn fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddio perthnasol gan ganolbwyntio'n benodol ar fframweithiau diogelu, iechyd a diogelwch, cyfleoedd cyfartal, a sicrhau ansawdd, cynnal asesiadau risg ar gyfer gweithgareddau yn ôl y gofyn.
- Sicrhau bod Cymorth i Ferched Cymru yn darparu arfer gorau wrth hyrwyddo natur groestoriadol a sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws yr holl wasanaethau a swyddogaethau.
- Cymryd cyfarwyddyd ar brosiectau a blaenoriaethau gan eich rheolwr llinell, a all amrywio.
- Cyfrifol am ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n briodol i'r swydd.

Os ydy hyn yn swnio fel chi, gwnewch gais gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol: https://www.surveymonkey.com/r/CZMMDJF

Gellir dod o hyd i wybodaeth ychwanegol ym mhecyn y swydd sydd ar gael ar ein gwefan: Gweithio gyda ni: Cymorth i Ferched Cymru (welshwomensaid.org.uk).

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y rôl, gallwch e-bostio ni ar recruitment@welshwomensaid.org.uk,neu gallwch ein ffonio ar 02920 541 551.